ATODLEN 3 — Rheoliadau 9(3)(c), 9(4), 11(3) a 18(3)

# RHAN 1

## Yr Wybodaeth sy'n Ofynnol mewn Cysylltiad â Phersonau sy'n Ceisio Cynnal, Rheoli neu Weithio mewn Practis Deintyddol Preifat

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Naill ai—

(a) pan fo'r dystysgrif yn ofynnol at ddiben sy'n ymwneud â chofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu pan fo'r swydd yn dod o fewn rheoliad 5A o Reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) 2002, dystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997 sy'n cynnwys, fel y bo'n gymwys, gwybodaeth addasrwydd yn ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno) neu'r ddwy; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, dystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113A o Ddeddf yr Heddlu 1997.

**3.** Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan gyflogwr diweddaraf y person, os oes un.

**4.** Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd a oedd yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**5.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymwysterau perthnasol.

**6.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**7.** Pan fo'r person yn ddeintydd neu'n broffesiynolyn gofal deintyddol—

(a) manylion cofrestriad y person â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol; a

(b) tystysgrif yswiriant mewn cysylltiad ag atebolrwydd y gall ddod i ran person mewn perthynas â'r practis deintyddol preifat mewn cysylltiad â marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu golled arall.

# RHAN 2

## Cymeriad Da

**8.** A yw'r person wedi ei euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o unrhyw drosedd neu wedi ei euogfarnu unrhyw le arall o unrhyw drosedd a fyddai, pe bai wedi ei chyflawni mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, yn ffurfio trosedd.

**9.** Os yw enw'r person wedi ei dynnu, ei ddileu neu ei daro oddi ar gofrestr o broffesiynolion a gynhelir gan reoleiddiwr proffesiynolion gofal iechyd neu waith cymdeithasol.